**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

2 Rhagfyr 2013

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal **ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig.**

Nod yr ymchwiliad yw adolygu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau bariatrig – yn arbennig llawdriniaethau – yng Nghymru a nodi meysydd lle y gallai camau pellach fod yn effeithiol.

Y materion allweddol i'w hystyried yw'r rhain:

- Effeithiolrwydd gwasanaethau arbenigol ar lefelau 3 a 4 o Lwybr Gordewdra Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r nifer cynyddol o bobl sy'n rhy drwm a gordew yng Nghymru;
- Meini prawf y cleifion ac argaeledd llawdriniaethau i drin gordewdra a gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol ledled Cymru;
- Y cynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd lleol ar yr argymhellion a amlygwyd yn adroddiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar yr *Adolygiad o'r Ddarpariaeth Llawdriniaethau Bariatrig a'r Meini Prawf ar gyfer Mynediad yng Nghyd-destun Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan;*
- Effeithiolrwydd cynlluniau arbenigol, o fewn lefelau 3 a 4o Lwybr Gordewdra Cymru Gyfan, i fynd i'r afael â'r nifer cynyddol o bobl sy'n rhy drwm a gordew yng Nghymru; a sut y caiff y gwasanaethau hyn eu mesur a'u gwerthuso, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian;

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

- Lefel y buddsoddiad sydd wedi'i neilltuo eisoes i ddarparu llawdriniaethau bariatrig yng Nghymru; ac
- Argaeledd llawdriniaethau i drin gordewdra a gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol ledled Cymru.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig oherwydd ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan, er mwyn iddi ddod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fydd hynny'n berthnasol, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i **Pwyllgor.IGC@cymru.gov.uk.**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Gwener 24 Ionawr 2014.**
Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.
Wrth baratoi'ch sylwadau, cofiwch:

- ddefnyddio dim mwy na phum ochr A4;
- defnyddio paragraffau wedi'u rhifo;
- (os byddwch yn eu hanfon yn electronig) byddai'n well defnyddio dogfennau Word, yn hytrach na ffeiliau pdf; a
- chanolbwyntio ar y cylch gorchwyl a amlinellwyd uchod.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu atodedig anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petaech yn gallu anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau. Byddwn yn cynnal dwy sesiwn o dystiolaeth lafar ym mis Chwefror a mis Mawrth 2014.


**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir




**David Rees AC**
**Cadeirydd**

**Atodiad: Rhestr Ddosbarthu**

Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru
Y Gymdeithas ar gyfer Astudio Gordewdra (ASO);
Cymdeithas Diabetolegwyr Clinigol Prydain;
Cymdeithas Llawfeddygon Laparoscopig Prydain ac Iwerddon;
Cymdeithas Llawfeddygon Prydain ac Iwerddon;
Cymdeithas Llawfeddygon y Gastroberfedd Uchaf;
Cymdeithas Ddeieteg Prydain
Sefydliad Prydeinig y Galon;
Sefydliad Maetheg Prydain;
Diabetes UK Cymru;
Deietegyddion sy'n Gweithio ym maes Rheoli Gordewdra (DOM UK) - grŵp arbenigol o fewn Cymdeithas Diabetes Prydain;
Y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Astudio Gordewdra;
Ffederasiwn Rhyngwladol Llawfeddygaeth Gordewdra ac Anhwylderau Metabolig;
Cyngor Ymchwil Feddygol;
Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion
Fforwm Cenedlaethol y Galon;
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal
Coleg Brenhinol yr Anaesthetyddion;
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol;
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru;
Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr;
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant;
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Caeredin;
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Glasgow
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Llundain
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion;
Coleg Brenhinol y Llawfeddygon;
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol;
Y Gymdeithas Anesthesia Bariatreg a Gordewdra;
Gwybodaeth am Lawfeddygaeth ar gyfer Colli Pwysau;
Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

Conffederasiwn GIG Cymru

Cynghorau Iechyd Cymuned

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

Abertawe Bro Morgannwg

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr

Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed

Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a’r Fro

Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf

Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda

Cyngor Iechyd Cymuned Maldwyn

Asiantaethau Swyddogol

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Cyngor Gofal Cymru

Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Sefydliad Iechyd Gwledig

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddfa Archwilio Cymru

Pwyllgorau Cynghorol Iechyd Cymru

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Cyrff Proffesiynol a Chymdeithasau Masnach

Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru

Y Gynghrair Arthritis ac Anhwylderau Cyhyrysgerbydol

Cymdeithas Anesthetyddion Prydain Fawr ac Iwerddon

Cymdeithas Diwydiannau Gofal Iechyd Prydain (ABHI)

Cymdeithas Niwrolegwyr Prydain

Y Gymdeithas Biocemeg Glinigol

Cymdeithas Coloproctoleg Prydain Fawr ac Iwerddon

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymdeithas Brydeinig y Diwydiant Fferyllol (ABPI)

Canolfan Diabetes ac Endocrin Bournemouth

Cymdeithas y Llawfeddygon Adluniaeth Blastig ac Aestheteg

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru

Cymdeithas Llawfeddygon y Cefn Prydain

Cymdeithas Meddygon Strôc Prydain

Cymdeithas Llawfeddygon Thyroid ac Endocrin Prydain

Cymdeithas Ymyrraeth Gardiofasgwlaidd Prydain

Cymdeithas Cardiofasgwlaidd Prydain

Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)

Cymdeithas Orthopedig Prydain

Cymdeithas Arbenigwyr Orthopedig Prydain

Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain

Cymdeithas Meddygaeth Adsefydlu Prydain

Cymdeithas Thorasig Prydain

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol

Coleg yr Optometryddion

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Heart Rhythm UK
Cymdeithas Meddygon Ymgynghorol ac Arbenigwyr Ysbyty
Y Sefydliad Ffiseg a Pheirianneg ym maes Meddygaeth
Canolfan Arloesi ac Ymchwil Clinigol Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr
Cymdeithas Ymchwil i Adsefydlu
Cymdeithas Llawfeddygon Cardiothorasig Prydain Fawr ac Iwerddon
Cymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion
Cymdeithas Poen Prydain
UNSAIN
Uno'r Undeb
Y Gymdeithas Fasgwlar
Cymdeithas Gastroenteroleg ac Endoscopi Cymru
Cymdeithas Gofal Dwys Cymru

Y Trydydd Sector

Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
Cymdeithas Elusennau Ymchwil Meddygol
Sefydliad Bevan
Cymdeithas Cleifion y Galon Prydain
Y Groes Goch Brydeinig
Ymddiriedolaeth y Gofalwyr
Cynhalwyr Cymru
Cynghrair Geneteg y DU
Ymchwil y Galon y DU
Cymdeithas y Cleifion
Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth
The Princess Royal Trust for Carers [Yng Nghymru, o dan ofal Gofal Croesffyrdd]
Cynghrair Cynhalwyr Cymru
Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Cymru

Y maes academaidd

Academi'r Gwyddorau Meddygol

Ysgol Gwyddorau Meddygol, Prifysgol Bangor

Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor

Partneriaid Iechyd Prifysgol Caergrawnt

Prifysgol Caerdydd

Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd

Cedar, Canolfan Werthuso'r GIG

Canolfan Ymchwil Gwaith a Gofal Cymdeithasol

Canolfan ar gyfer yr Agweddau Economaidd a Chymdeithasol ar Genomeg

Canolfan Ymchwil Cyfathrebu Iechyd

Rhaglen Cydweithredu Academaidd ym maes Gwyddorau Iechyd y Coleg Imperial

Sefydliad Ymchwil Meddygaeth a Gofal Cymdeithasol

Partneriaid Iechyd King's

Rhaglen Cydweithredu Academaidd ym maes Gwyddorau Iechyd Manceinion

Canolfan Sganio'r Gorwel y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd

Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio

Canolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe

Coleg Meddygaeth Prifysgol Abertawe

Adran Iechyd Cyhoeddus ac Astudiaethau Polisi Prifysgol Abertawe

Parc Geneteg Cymru

Partneriaid UCL

Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU - Sharmila Nebhrajani

Prifysgol De Cymru - Uned Economeg Iechyd ac Ymchwil i Bolisi

Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru